



Polisi (Adran Addysg Gwynedd)

Darparu ar gyfer disgyblion ag Anabledd

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â disgyblion sydd ag anabledd corfforol.

2. Cyd-destun

2.1 Dywed y Ddeddf AAA ac Anabledd 2001 bod yn rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol gymryd unrhyw gamau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl a darpar ddisgyblion anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â rheini nad ydynt yn anabl. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod y corff sy'n gyfrifol am ysgol yn gwahaniaethu yn erbyn plentyn anabl os yw'n methu â chymryd camau resymol heb gyfiawnhad, a bod y plentyn ar ei golled oherwydd hynny. Cyfeirir at hyn yn aml fel y dyletswydd addasiadau rhesymol

2.2 Nid yw'r gyfraith yn nodi beth sy'n resymol. Bydd hyn yn dibynnu ar holl amgylchiadau achos unigol

2.3 Nid ar chwarae bach y dylid penderfynu peidio â rhoi addysg i ddisgybl yn y prif ffrwd- yn erbyn dymuniadau rhieni neu'r gofalwyr. Yr unig bryd y gellir cyfiawnhau gwrthod rhoi addysg brif ffrwd i blentyn neu peron ifanc anabl yw pe bai hynny'n amharu ar addysg plant neu pobl ifanc eraill ac nad oes camau ymarferol y gallai'r ysgol neu'r AALI eu cymryd i osgoi hynny

3. Datganiad o fwriad

Bydd Adran Addysg Gwynedd yn ymateb yn unol â'i chyfrifoldeb statudol .

4. Fframwaith Statudol

4.1 Deddf AAA ac Anabledd 2001

4.3 Côt Ymarfer ar gyfer Ysgolion 2002 (Comisiwn Anabledd)

4.4 Deddf Plant 2004

4.5 Deddf Addysg 1996

5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Ni ddylid gwahaniaethu ar sail anabledd wrth ddarparu addysg ac hyfforddiant i plant a phobl ifanc .

6. Amcanion Adran Addysg Gwynedd

6.1 Yn unol â'r gofyn cyfreithiol, bydd yr Adran yn darparu addysg brif ffrwd i ddisgyblion ag anabledd

Yn y cyd-destun hwn bydd y gwasanaeth ysgolion yn gweithredu'n rhesymol o fewn yr ystyriaethau canlynol:

- A fyddai gweithredu'r cam yn cyrraedd y nôd a'r amcan yn llwyddiannus
- I ba raddau y mae'r cam gweithredu yn ymarferol i'r ysgol a gynhelir neu'r Awdurdod
- Pa gamau a gymerwyd eisoes i hwyluso cynnwys y plentyn neu'r person ifanc a pha mor effeithiol oeddynt
- Y goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau
- I ba raddau yn byddai'r cam gweithredu'n amharu ar yr ysgol.

6.2 Mae'r Adran Addysg wedi dynodi ysgolion gydag addasiadau megis lifftiau i hwyluso mynediad i weithgareddau addas yr ysgol .

6.3 Bydd yr Awdurdod yn unol â gofynion y Ddeddf yn cynllunio'n strategol i wneud yr holl ysgolion a gynhelir ganddynt yn fwy hygyrch i ddisgyblion anabl dros amser. Rhaid i'r strategaethau hygyrchedd AAL ymdrin â

- Ehangu'r cyfloedd i ddisgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol
- Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol ar gyfer disgyblion anabl
- Gwella'r dull o drosglwyddo y wybodaeth a roddir ar ffurf ysgrifenedig i ddisgyblion eraill i ddisgyblion anabl

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Sicrhau nad yw'r ysgol yn gwahaniaethu ar sail anabledd wrth ddarparu addysg i'w dysgyblion.

7.2 Sicrhau bod disgyblion ag anabledd yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i weithgareddau addas yn yr ysgol.

8. Cyfrifoldeb Penaethiaid Ysgolion

8.1 Rhaid i Bennaeth Ysgol sicrhau nad yw disgybl ag anabledd yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhywun sydd heb anabledd. Golyga hyn sicrhau

- Ehangu'r cyfloedd i ddisgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol
- Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol ar gyfer disgyblion anabl
- Gwella'r dull o drosglwyddo y wybodaeth a roddir ar ffurf ysgrifenedig i ddisgyblion eraill i ddisgyblion anabl.

8.2 Cydweithio gydag asiantaethau eraill

8.3 Sicrhau bod staff yn sensitif i gyflwr disgybl

8.4 Sicrhau nad yw disgybl ag anabledd yn cael ei ynysu e.e mewn gwersi Addysg Gorfforol.

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi: